# Y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gyfranogiad yn y Celfyddydau yng Nghymru

## Ymchwiliad i Gyfranogiad yn y Celfyddydau

Ymateb gan Cwmni'r Frân Wen

**1. Pa sefydliad/corff ydych chi'n ei gynrychioli?**
Cwmni'r Frân Wen

**2. Pa grwpiau o bobl sy'n cyfranogi yng ngweithgareddau celfyddydol eich sefydliad?**
Plant a Phobl Ifanc ynghyd â'r cyhoedd yn gyffredinol

**3. A ydych yn credu bod newidiadau mewn cyllidebau wedi effeithio ar gyfranogiad yn y celfyddydau, yn gadarnhaol neu'n negyddol?**
Negyddol

**4. A ydych yn credu bod hyn wedi effeithio mwy ar rai grwpiau o bobl nag eraill?**
Mae 'na doriadau sylweddol wedi bod yn ddiweddar ym maes theatr i blant a phobl ifanc yn dilyn Adolygiad Buddsoddiad Cyngor Celfyddydau Cymru.

**5. A oes bylchau yn y ddarpariaeth ar gyfer cyfranogiad yn y celfyddydau, o ran demograffeg neu ddaearyddiaeth?**
Mae anghysonderau amlwg yn bodoli yn nhermau'r modd y mae cyllid cyhoeddus yn cael ei ddosbarthu yn ddaearyddol.

**6. A oes digon o ffynonellau ariannu ar gael ar wahân i Gyngor Celfyddydau Cymru? A yw ffynonellau ariannu eraill yn hygyrch?**
Mae ffynonellau eraill ar gael ond mae'r broses o ymgeisio yn gystadleuol iawn. Mae meini prawf cynlluniau cyllido Ewropeaidd yn gymhleth ac yn targedu un carfan penodol yn aml iawn e.e. NEETS.

**7. Pa rôl y mae'r sector celfyddydau gwirfoddol yn ei chwarae mewn perthynas â hyrwyddo cyfranogiad yn y celfyddydau yng Nghymru a sut y gellir cefnogi hyn**
Rôl amlwg iawn. Angen mwy o gydweithio rhwng y sector celfyddydau gwirfoddol a'r sector celfyddydau proffesiynol.

**8. A yw'r berthynas strategol rhwng Llywodraeth Cymru a'r cyrff sy'n dosbarthu'r arian i'r celfyddydau yn effeithiol o ran cynyddu cyfranogiad?**
Dim ymateb

**9. Bydd pob corff cyhoeddus yng Nghymru wedi cyhoeddi cynllun cydraddoldeb strategol erbyn mis Ebrill 2012. A ydych yn credu y bydd y dyletswyddau cydraddoldeb newydd hyn yn y sector cyhoeddus yn helpu i gynyddu cyfranogiad yn y celfyddydau ymysg grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yng Nghymru?**
Bydd.